# DATGANIAD GOFAL BUGEILIOL YSGOL GYFUN GŴYR

(Adlewyrchir nifer o Erthgyglau CCUHP yn y datganiad hwn a'r polisi ehangach, yn eu plith Erthyglau 3,6,23 a 37)

**Mae Ysgol Gyfun Gŵyr yn ymroddedig i'r canlynol:**

- **CYMUNED OFALGAR**

Cymuned lle y mae parch at eraill a gofal amdanynt yn flaenllaw-"Gorau Byw, Cyd-fyw." Mewn cymuned o'r fath rhoir cyfle i bob unigolyn ddatblygu yn berson cyflawn gan feithrin doniau i'r eithaf. Pwysleisir y cyfraniad pwysig a gwerthfawr sydd gan bob unigolyn i'w wneud. Anogir pob aelod o gymuned i ystyried a cheisio deall ei hun a hynny mewn perthynas ag eraill. Delfryd y gymuned yw bod gan bob aelod gonsýrn am ddatblygiad personol, lles a hapusrwydd ei gilydd. Nid yw'r consýrn yma yn gyfyngedig i gynllun na strwythur na rôl. Mae cynnal y gymuned yn gyfrifoldeb ar bob un ohonom.

- **TREFN FUGEILIOL STRWYTHUREDIG**

Ni all unrhyw drefn fugeiliol lwyddo heb fod yn gymuned ofalgar yn bodoli. Mae pawb yn rhan o'r drefn hon ond er mwyn sicrhau sylw cyson i bob unigolyn y mae'n rhaid wrth strwythur benodol. Dechreua'r strwythur honno gan y Pennaeth gydag Arweinwyr Lles yr ysgol (SAT/RAE) oddi tano, gyda chyfrifoldebau sy'n cwmpasu trosolwg o feysydd megis Amddiffyn Plant, Lles a Chynhwysiant, ABCh, Llais y Disgybl, Cynghorau Ysgol a Blwyddyn, ac ati. Fe fydd y Penaethiaid Blwyddyn (PB) yn atebol iddynt hwy, a'r Tiwtoriaid Dosbarth yn eu tro yn gweithredu ar yr haen isaf ond allwewddol.

- **UNEDAU DOSBARTH CARTREFOL**

Yr uned ddosbarth yw canolbwynt y gymuned i'r unigolyn, lle y meithrinir yr ymdeimlad o berthyn, consýrn a diogelwch. Gobeithir creu awyrgylch gartrefol lle bydd pawb yn llawenhau yn llwyddiannau ei gilydd ac yn cydymdeimlo pan fo angen. Gweithreda'r uned ddosbarth hefyd drwy'r sesiynau boreol yn fodd i baratoi'r disgyblion ar gyfer dysgu'r dydd, gan yn ogystal ffocysu ar agweddau o lythrennedd a rhifedd a chynnig cyfle ar gyfer myfyrdod moesol ac ysbrydol. Gwneir hyn hefyd mewn awyrgych o drefn gyda disgyblion yn eistedd mewn grwpiau penodol neu leoedd pwrpasol. O fewn yr uned ddosbarth hefyd y gobaith yw rhoi cyfle i bob unigolyn dderbyn cyfrifoldebau megis cynrychioli'r dosbarth ar y Cyngor Blwyddyn. Trwy amrywiol weithgareddau caiff y disgybl gyfle i ymroi fel unigolyn ond hefyd fel aelod o dîm ac o hynny daw ymwybyddiaeth o bwysigrwydd hunan-ddisgyblaeth a pharch at eraill. O gael profiad cadarnhaol o fewn yr uned ddosbarth daw'r hyder i fod yn rhan o'r gymuned ehangach.

- **TIWTORIAID DOSBARTH YMWYBODOL A PHROFFESIYNOL**

Y Tiwtor Dosbarth (TD) sydd â'r cyfrifoldeb o gynnal a symbylu'r uned ddosbarth. Ei brif nod yw dod i adnabod pob disgybl yn unigol a dangos diddordeb byw ynddynt. O hynny daw ymddiriedaeth a gellir cynnig cymorth a chefnogaeth yn ôl y galw. Disgwylir i'r TD fod yn ymwybodol o unrhyw newid mewn disgybl a fydd efallai yn gofyn am sylw arbennig a bwydo'r wybodaeth i'r PB . Mae bod yn TD cyn bwysiced o swydd ag yw bod yn athro pwnc arbennig ac o ganlyniad disgwylir ymddygiad proffesiynol o'r safon uchaf sydd yn gwneud yr unigolyn yn esiampl i'r disgyblion. Rhan o'r dyletswydd beunyddiol yw rhannu cyhoeddiadau, a sicrhau fod myfyrdod moesol ac ysbrydol drwy "Munud i Feddwl" yn cael ei weithredu. Yn ogystal, fe fydd y TD yn gyfrifol am sicrhau fod gwasanaeth blynyddol y dosbarth yn y Neuadd yn cael ei gynnal ac y bydd o safon uchel. Mae gan aelod o'r TARh gyfrifoldeb i gefnogi gwaith y PB fel y bo angen.

- **PENAETHIAID BLWYDDYN ARDDERCHOG**

PB bydd yn arwain tím o Diwtoriaid Dosbarth y flwyddyn ac yn gweithredu er lles, hapusrwydd, cynnydd academaidd ac ymddygiad da y disgyblion. Byddant yn tracio cyrhaeddiad ac yn ymyrryd pan yn briodol. Gweithredent hefyd grwpiau targed o dangyflanwyr a disgyblion MATh ar sail data. Byddant yn hunanwerthuso perfformiad y Flwyddyn ac yn ffurfio Cynlun Gwelliant drwy'r HWCDAD (Gweler disgrifiad swydd y PB.) Bydd Y PB yn cydweithio'n agos gyda'r Swyddogion Bugeiliol ac Ymddygiadol parthed ymddygiad a lles disgyblion y flwyddyn a fydd yn amlwg yn gonsýrn canolog iddynt.

- **SYSTEM CWNSELA EFFEITHIOL**

Pan fydd disgyblion yn profi cyfnodau o anawsterau emosiynol, am ba reswm bynnag, fe fydd modd iddynt gael cefnogaeth arbenigol gan gwnsewlwyr hyfforddedig. Bydd modd i ddisgyblion hunan gyfeirio neu allant gael eu cyfeirio gan aelod o'r TARh neu Bennaeth Blwyddyn. Gwneir hynny drwy ffurflen gyfeirio ar lein gwasanaeth "Platform." Bydd RAE fel Swyddog Amddiffyn Plant yn monitro y gwaith hwn ac yn gweithreu fel cyswllt cyntaf i'r cwnselwyr mewn sefyllfa o argyfwng.

- ***Y TROBWYNT*-CANOLFAN O GEFNOGAETH EFFEITHIOL**

Pan fydd profiadau dysgu arferol mewn gwersi yn profi yn anodd i rai disgyblion, ar sail emosiynol yn aml, derbynnant gefnogaeth ac o bosib, am gyfnod, eu haddysg yn y *Trobwynt*. Canolfan yw hon sydd yn cynnig awyrgylch mwy cartrefol a thawel i ddysgwyr, dan ofalaeth Rheolwr penodol. Bydd y person hwn yn abl i addysgu agweddau perthnasol o'r cwricwlwm i ddysgwyr mewn cydweithrediad ag Adrannau'r ysgol, ond hefyd y bydd yn cynorthwyo'r dysgwyr i ymgyryfhau er mwyn ail ymuno yn y prif lif. Fe fydd staff ar ddyletswydd drwy'r dydd i gynnig cefnogaeth a gofal. SAT yw yr aelod o'r TRHU sydd â goruchwyliaeth o weithdrefnau dyddiol y*Trobwynt*. .

- **RHWYDWAITH O ASIANTAETHAU ARBENIGOL CEFNOGOL**

Sicrheir bod gan bob disgybl yn ôl yr angen mynediad i gyfres o asiantaethau arbenigol a all ei gefnogi ar adegau yn ystod ei daith ddysgu yn yr ysgol. Bydd rhain yn amrywio o fynediad i Seicolegydd Addysg, sesiynau gan ein Swyddog Cefnogi Ymddygiad (Angharad Wiltshire) sesiynau wythnosol gan Arbenigwr Sirol ar Wella Ymddygiad, help gan wasanaeth sirol yr Hwb Help Cynnar ar faterion personol ac emosiynol, mynediad i CAMHS ynghylch materion iechyd meddwl, i enwi ond ychydig. Cyfeirir y disgybl at y gwasanaethau hyn gan staff penodol yn yr ysgol yn ôl eu disgrifiad swydd. Goruchwylir yr agwedd hon ar drefniadaeth fugeiliol yr ysgol gan RAE.

***Am fwy o fanylion penodol, cyfeirir sylw'r unigolyn tuag at gynnwys y Llawlyfr Staff (e.e. Cyfrifoldebau'r Tiwtor Dosbarth a Safonau yn ystod Cyfnodau Bugeiliol) ynghyd â pholisiau megis Amddiffyn Plant, Ymddygiad ar gyfer Dysgu ac Iechyd oherwydd adlewyrchir Polisi Bugeiliol yr ysgol ar sail ystod eang o bolisiau ac arweiniad amrywiol.*

*(Diweddarwyd: 2025)*